

# Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Craffu Pobl held at The Council Chamber, County Hall, Usk, NP15 1GA and remote attendance on Dydd Mercher, 20fed Gorffennaf, 2022 at 10.00 am

## Councillors Present

County Councillor Sue Riley (Chairman)

County Councillors: Fay Bromfield, Jayne McKenna, Maureen Powell, Angela Sandles, Maria Stevens, Jackie Strong and Penny Jones

Also in attendance County Councillors:

**APOLOGIES:** Councillors David Jones

## Officers in Attendance

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu  
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu  
Frances O'Brien, Prif Swyddog, Cymunedau a Lle  
Ian Bakewell, Rheolwr Tai ac Adfywio  
Mark Hand, Pennaeth Llundio Lle, Tai, Priffyrdd a Llifogydd  
Craig O'Connor, Pennaeth Cynllunio

### 1. Ethol Cadeirydd.

Cynghorydd Sue Riley, enwebwyd gan y Cynghorydd Stevens ac eiliwyd gan y Cynghorydd Strong.

Cafwyd rhai sylwadau croesawgar gan y Cadeirydd, gan bwysleisio'r cyfle sydd gan y pwyllgor i lunio gwasanaethau er mwyn gwella bywydau pobl, a chynrychioli pawb.

### 2. Penodi Is-gadeirydd.

Enwebwyd y Cynghorydd Christopher Edwards gan y Cynghorydd Powell ac eiliwyd gan y Cynghorydd Bromfield. Enwebwyd y Cynghorydd Angela Sandles gan y Cynghorydd Strong, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Stevens.

Penodwyd y Cynghorydd Sandles yn Is-Gadeirydd, yn dilyn pleidlais.

### 3. Datganiadau o Fuddiant

Datganodd y Cynghorwyr Powell, Bromfield, Riley a McKenna fuddiant nad oedd yn rhagfarnu fel aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio.

### 4. Fforwm Agored i'r Cyhoedd.

Ni dderbyniwyd unrhyw gyflwyniadau cyhoeddus.

**5. Dewis Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr - Ystyried cynnig i asesu addasrwydd tir sy'n eiddo i'r Cyngor at y diben posibl o fynd i'r afael â rhwymedigaeth statudol y Cyngor, er mwyn diwallu'r angen a nodwyd am safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.**

Cyflwynodd Ian Bakewell yr adroddiad, gyda sylwadau ychwanegol gan Mark Hand. Atebodd Ian Bakewell a Mark Hand gwestiynau'r aelodau.

**Her:**

*Cymeradwydd y Pwyllgor Cynllunio safle Teithwyr fis diwethaf – a yw hwnnw wedi ei dynnu oddi ar y 13? A oes unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus cyn y cam cynllunio?*

Mae'r safle a grybwyllwyd mewn perthynas â'r Pwyllgor Cynllunio yn ymwneud â theulu na chafodd ei adnabod fel rhan o broses yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr. Nodwyd drwy'r broses fod angen 13 safle. Felly, gall nifer y teuluoedd newid, a bydd adolygiad yn 2025. Mae'r nifer hefyd yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch sut y bydd teuluoedd yn tyfu erbyn 2033. Felly, mae rhywfaint o hyblygrwydd ond dyma'r broses orau a fwyaf derbyniol.

Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses o hidlo safleoedd, dan arweiniad y tîm Tai, a byddant yn edrych ar ba safleoedd sydd ar y rhestr fer a sut y gallai'r safleoedd dan sylw gyd-fynd â'r CDLI. Yr ail gam yw sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn y CDLI, fel proses statudol. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar hynny ynghyd â holl agweddau eraill y cynllun. Mae'r trydydd cam ar lefel cais cynllunio. Unwaith y bydd pethau wedi'u trefnu o fewn y cynllun, bydd yn ddogfen y cytunwyd arni gan y cyngor felly dim ond cadarnhau manylion penodol am y safle fydd angen ei wneud yn ystod y cam olaf.

*Mae 13 llain wedi'u cynnig, ar gyfer yr 13 sydd eu hangen. A fu unrhyw elfen o ddewis gan y gymuned ei hun?*

Mae cymaint o hyblygrwydd â phosibl wedi'i gynnwys - nid ydym eisiau dewis safle yn fympwyl ac yna ddweud wrth y teulu. Nifer gymharol fach o deuluoedd sydd, felly rydym yn eu hadnabod ac yn adnabod eu anghenion yn dda. Yr hyn sy'n bwysig yw ceisio cymryd cymaint o hyn ag sy'n bosibl i ystyriaeth wrth symud ymlaen, er mwyn sicrhau nad oes syndod na siom ar ddiwedd y broses. Gan ein bod yn dechrau o'r dechrau, mae cyfle i gynnwys y teuluoedd wrth ddatblygu safleoedd.

*Bydd y gymuned yn cymryd rhan, a bydd Trudy Aspinall, yr Arweinydd ar gyfer Teithio Ymlaen, yn siarad ar eu rhan?*

Bydd. Gofynnodd Trudy i ni ddatgan heddiw ei bod yn hapus i fod yn rhan ac i eirioli, gan hwyluso ymgysylltiad cymunedol, ond nad yw'n gynrychiolydd uniongyrchol.

*Beth yw sefyllfa bresennol y teuluoedd – sut maent yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd?*

Nid oes modd i ni ateb yn uniongyrchol ar hyn o bryd. Mae'r teuluoedd yn annibynnol, ond gwyddom fod angen mynediad at gyfleusterau iechyd penodol arnynt, mae rhai o'r plant yn mynychu ysgol gyfun ym Mhont-y-pŵl, mae un yn gweithio yn ardal Brynbuga, ac ati. Byddem yn disgwyl i'r teuluoedd roi adborth i ni am eu sefyllfa a'u hanghenion, er mwyn ein galluogi i'w cymryd i ystyriaeth. Y peth pwysig i ni yw gwrandao ac ymateb yn y modd priodol.

O ran sefyllfa ffisegol y teuluoedd, mae gennym yr holl wybodaeth yma a gallwn fynd drwyddi yn y gweithdy cyntaf e.e., os yw'r llety'r teulu'n orlawn, gellid darparu ar eu cyfer drwy roi carafán ychwanegol ar yr ardal y maent yn berchen arni eisoes, yn ddarostyngedig i ganiatâd cynllunio. Un mater penodol yw'r ardal yn Llancayo, sydd heb ei hawdurdodi o ran cynllunio: gwrthodwyd y cais cynllunio, gwrthodwyd yr apêl, ac mae wedi mynd drwy broses llys. Felly mae gan y

teuluoedd hynny le i fyw ar hyn o bryd ond nid yw wedi'i awdurdodi; mae angen iddynt aros yno am y tro, ond pwrpas yr ymarfer hwn yw dod o hyd i rhywle arall addas ar eu cyfer. Roedd y mater cynllunio yn ymwneud â pherygl llifogydd; ar hyn o bryd maent mewn llety diogel, nid oes risg uniongyrchol i unrhyw un ar hyn o bryd.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Cytunodd y pwyllgor y dylid ychwanegu hyn at y Flaenraglen Waith.

**6. Blaenraglen Waith - Ystyried Adroddiad y Flaenraglen Waith a nodi meysydd i graffu arnynt yn y dyfodol, ac wrth wneud hynny, cytuno ar Flaenraglen Waith ddrafft.**

Cyflwynodd Hazel Ilett yr adroddiad. Cynigiodd yr Aelodau y pynciau a ganlyn:

- Cludiant o'r cartref i'r ysgol
- Amseroedd aros ar gyfer cleifion y GIG
- Datblygu'r gweithlu: y polisi ynghylch y bwllch o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty a gofal cymdeithasol
- Diogelu Plant: faint o blant sy'n cael eu diogelu rhag esgeulustod, a pha wasanaethau ataliol y gellid eu hychwanegu i leihau'r nifer hwnnw

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Mae amseroedd aros ar gyfer cleifion y GIG yn fwy perthnasol i'r pwyllgor Gwasanaethau Cyhoeddus. Cytunodd yr aelodau i gael trafodaeth gyda PS mewn gweithdy ar y cyd ar y mater. O ran Gofal Cymdeithasol, bydd y Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg yn craffu ar adroddiad y Prif Swyddog, a chynigir bod cyfarfod arbennig yn cael ei gynnal ym mis Hydref i'w drafod; byddai croeso i aelodau'r pwyllgor hwn, a gobeithio y byddai llawer o'u cwestiynau'n cael eu hateb yno.

Cytunwyd ar gludiant ysgol ac Amddiffyn Plant ar gyfer y 27ain o Fedi.

**7. I gadarnhau'r cofnodion canlynol:**

- 8a. Pwyllgor Dethol Oedolion dyddiedig 2 Mawrth 2022.
- 8b. Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc dyddiedig 3 Mawrth 2022 .

Nodwyd y cofnodion, gan nad oedd yr un o'r aelodau yn bresennol yn yr un ohonynt ac eithrio'r Cynghorydd Powell.

**Pwyllgor Dethol Oedolion dyddiedig 2 Mawrth 2022.**

**Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc dyddiedig 3 Mawrth 2022.**

**8. Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth 27 Medi 2022 am 10.00am.**

Roedd yn well gan yr aelodau newid yr amser i 10.00am.

The meeting ended at **11.05 am**